# Phytophthora

## PEIDIWCH Â GADAEL IDDO DDIFETHA'N HAMGYLCHEDD







### Sut mae'n lledaenu?

Mae planhigion heintiedig yn cynhyrchu sborau microsgopig sy'n gallu heintio planhigion iach sy'n dod i gysylltiad â nhw. Mae'r sborau'n cael eu golchi i'r pridd a deiliach marw'r llawr gan law, lle maen nhw'n cael eu codi gan esgidiau, anifeiliaid (e.e cŵn, ceffylau) a theiars beiciau a cherbydau. Mae symud planhigion heintiedig i ardaloedd di-haint hefyd yn lledaenu'r sborau.





### Sut alla' i helpu i osgoi ei ledaenu?

Mae rhai camau sylfaenol y gallwch eu dilyn wrth ymweld â pharciau a gerddi, neu pan fyddwch chi allan yng nghefn gwlad:

- **CADWCH** at y llwybrau swyddogol – rhag ichi godi pridd heintiedig a deiliach marw ar eich esgidiau.
- **DARLLENWCH** yr arwyddion – efallai y bydd ar ardaloedd heintiedig wedi'u cau.
- **GLANHEWCH** eich esgidiau – i gael gwared ar bridd a deiliach marw ar ôl pob ymweliad.
- **GLANHEWCH** deiars beiciau a cherbydau – ar ôl bod oddi ar y ffordd, i gael gwared ar bridd a deiliach marw.
- **PEIDIWCH** â chymryd planhigion na thorion – rhag dod â'r clefyd i'ch gardd.
- **CADWCH** olwg ar iechyd eich planhigion – dysgwch beth yw symptomau Phytophthora a dywedwch pan welwch nhw.

### Â phwy y dylwn ni gysylltu?

Mae timau rhanbarthol yn chwilio am achosion o'r clefyd i'w dileu, fel rhan o raglen fawr i reoli effeithiau *Phytophthora ramorum* a *Phytophthora kernoviae* ym Mhrydain.

Mae'r rhaglen yn cael ei rhedeg gan yr Asiantaeth Ymchwil i Fwyd a'r Amgylchedd (Fera) ar ran Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

Gallwch chi ein helpu trwy ddweud wrth Fera pan welwch arwyddion y clefydau. Os gwelwch y symptomau sy'n cael eu dangos ar y daflen hon:

- Gwnewch nodyn ble y mae.
- Os medrwch, tynnwch ffoto.
- Peidiwch â chyffwrdd ynddo na chymryd toriad.
- Cysylltwch â'r isod:

**Ffôn: 01904 465625**

**Ebost:planthealth.info@fera.gsi.gov.uk**





fera
The Food and Environment Research Agency

# Phytophthora

## Beth yw e?

Organeb dinistriol tebyg i ffwng yw Phytophthora sy'n achosi clefyd mewn amrywiaeth o blanhigion. Yn ddiweddar, mae dau fath o Phytophthora - *Phytophthora ramorum* a *Phytophthora kernoviae* - wedi bod yn creu difrod mawr i'n hamgylchedd.

Cafodd *Phytophthora ramorum* ei gofnodi y tro cyntaf erioed yn America yn 2001 lle roedd wedi achosi difrod mawr i goed deri gwyllt a chyrhaeddodd Brydain yn 2002. Yn 2003, cafodd *Phytophthora kernoviae* ei ddarganfod, yng Nghernyw.

## Pam poeni?

Ers eu gweld yn y lle cyntaf yn ne-orllewin Lloegr, mae'r clefydau wedi cyrraedd pob rhan o Brydain. O adael iddynt, gallent ladd llawer o goed, llwyni a phlanhigion y gweunydd a newid ein tirlun am byth.

## Ble mae ei weld?

Mae *Phytophthora ramorum* a *Phytophthora kernoviae* gan fwyaf yn effeithio ar lwyni, fel rhododendron, viburnum a camellia, a choed fel coed magnolia, ffawydd a chastan. Mae'r clefydau wedi'u gweld mewn meithrinfeydd planhigion, canolfannau garddio, parciau a gerddi hanesyddol yn ogystal ag mewn coedwigoedd naturiol. Gwelwyd yn ddiweddar eu bod yn ymosod ar lus hefyd mewn gweunydd a choed, ac mae planhigion eraill y gweunydd yn gallu eu dal.

## Beth yw'r symptomau?

Mae'r symptomau'n amrywio yn ôl y math o blanhigyn. Ar lwyni, y symptomau mwyaf cyffredin yw duwch ar wythïen ganol a blaen y dail a'r egin yn gwywo. Ar goed, mae briwiau du (o'r enw cancrau) yn ymddangos ar y rhisgl, gyda nodd tywyll yn diferu ohonyn nhw.





Mae dail llwyni fel rhododendron yn gallu troi'n ddu





Mae cancrau marwol yn gallu ymddangos ar foncyffion coed brodorol, fel y ffawydd, gyda nodd du yn diferu ohonyn nhw





Mae planhigion y gweunydd, fel llus, yn gallu gwywo

PEIDIWCH Â GADAEL IDDO DDIFETHA'N HAMGYLCHEDD